**Papur tystiolaeth ar gyfer presenoldeb y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ym Mhwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gweledig ar 15 Mehefin 2022**

## Yr argyfwng costau byw

1. Mae pobl ar draws Cymru yn wynebu argyfwng costau byw digynsail, sy'n gael ei ysgogi gan filiau ynni sy'n codi yn aruthrol. Effaith fwyaf yr ansicrwydd byd-eang ar y cyhoedd yw chwyddiant. Mae ar 9% ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd yn codi yn ystod y flwyddyn. Mae'r prisiau pethau bob dydd – bwyd, tanwydd, ynni, dillad, costau teithio a rhent – yn codi wrth i chwyddiant godi ac wrth i'r rhyfel yn Wcráin waethygu'r sefyllfa hon.

2. Ers mis Tachwedd 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid gwerth £380 miliwn i helpu cartrefi i reoli costau byw uwch. Mae'r cyllid hwn wedi cefnogi Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf, a dalodd £200 i gartrefi o oedran gweithio a oedd yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, i'w helpu gyda chostau tai hanfodol. Bydd hefyd yn cefnogi cynllun cymorth tanwydd arall a fydd yn cael ei lansio eleni. Rydym yn ystyried sut y gall y cynllun helpu rhagor o gartrefi, fel bod rhagor o bobl yn derbyn y taliad o £200 sy'n cynnig cymorth hanfodol. Bydd hefyd yn helpu i ariannu taliad costau byw o £150 ar gyfer pob cartref mewn bandiau treth gyngor A i D, a phob cartref sy'n derbyn cymorth drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ni waeth beth yw ei fand treth gyngor.

3. Fel rhan o'r gyllideb ar gyfer 2022/23, mae £15 miliwn wedi cael ei wneud ar gael ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, fel y gall y cynllun barhau i fod yn hyblyg er mwyn cynyddu nifer ac amlder y dyfarniadau brys sy'n cael eu gwneud i bobl sy'n profi anawsterau ariannol difrifol. Mae'r ffigur hwn yn ychwanegol at y cynnydd o £7 miliwn i'r cynllun bob blwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf

4. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar chwyddiant a phrisiau bwyd sy'n codi yng nghyd-destun yr effaith ar y diwydiannau bwyd, ffermio a physgodfeydd.

## Bwyd

5. Cododd prisiau bwyd a diodydd nad ydynt yn alcoholig tua 7% yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2022. Dyma oedd y gyfradd 12 mis uchaf ar gyfer bwyd ers mis Mehefin 2011, a rhagwelir y bydd prisiau'n codi'n uwch. Y tu ôl i'r ganran bennawd, mae prisiau'r cynhyrchion rhataf, lle y gwelir y meintiau elw isaf, a lle mae gan y gadwyn gyflenwi a manwerthwyr lai o gapasiti i ysgwyddo costau, wedi codi'n fwy sydyn. Fel arfer, dyma'r cynhyrchion mae'r bobl sydd â'r incwm gwario lleiaf yn tueddu i ddibynnu arnynt. Canlyniadau chwyddiant yw prisiau uwch, llai o gynigion fel 'prynu un, cael un am ddim' a '*shrinkflation*' lle mae llai yn cael ei werthu am yr hen bris. Felly, nid oes dwywaith nad yw cyfradd chwyddiant prisiau bwyd ar gyfer y bobl dlotaf yn uwch na'r gyfradd chwyddiant bennawd.

6. Mae'r diwydiant bwyd yn cael ei ddominyddu gan nifer fach o fusnesau manwerthu mawr, a roddodd bwysau cryf ar gyflenwyr i gadw prisiau i lawr yn y cyfnod cyn y Nadolig – ond ers hynny maent wedi gorfod cytuno i godi prisiau oherwydd y pwysau hynod gryf mae chwyddiant yn eu cael ar y gadwyn gyflenwi. Er bod

busnesau manwerthu bwyd fel ar arfer yn gwneud elw mawr, mae meintiau elw'n isel, ac mae'r elw yn dod o werthu sympiau mawr. Mae'r cystadlu yn y sector manwerthu bwyd yn ddwys iawn, ac ni all unrhyw ran o'r gadwyn gyflenwi ysgwyddo maint y cynnydd sy'n cael ei brofi ar hyn o bryd. Mae'r prif fanwerthwyr yn cynnig tair haen o gynhyrchion – fel arfer haen o gynhyrchion moeth, haen ganolig, a haen fargen. Ar ôl i rai ohonynt gael eu beirniadu am wneud toriadau i'w cynhyrchion bargen, bu llawer o weithgarwch yn ystod y 2–3 mis diwethaf i gyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad yn y categori prisiau hwn. Er hynny, mae prisiau wedi codi a byddant yn parhau i wneud hynny.

7. Mae bwyd yn ddiwydiant rhyngwladol. Mae'r diwydiant bwyd yng Nghymru, a'r ffordd mae bwyd yn cael ei gyflenwi i'r boblogaeth, wedi'i integreiddio'n llwyr â'r DU. Mewn gwirionedd, nid oes system fwyd yng Nghymru sy'n endid ar wahân yn ymateb i gyd-destun a pholisïau Cymru. Mae ffiniau mewnol y DU, ac eithrio sefyllfa unigryw Gogledd Iwerddon, yn amherthnasol i gadwyni cyflenwi bwyd yn y DU. Mae 98% o fwyd a nwyddau groser bob dydd yn cael eu prynu yn siopau nifer fach o fanwerthwyr mawr, sy'n golygu bod sianeli eraill, i bob pwrpas, yn amherthnasol. Mae mwyafrif y boblogaeth yn prynu'r rhan fwyaf o'i bwyd ar sail 'cyfleuster fforddiadwy' – hynny yw, mae'r pris yn gywir ac mae ei brynu yn y lleoliad hwnnw'n gyfleus, ac mae ei baratoi a'i fwyta yn cyd-fynd â ffordd yr unigolyn o fyw. Mae'r rhain yn ffeithiau economaidd-gymdeithasol sylfaenol, y mae'n rhaid i bolisïau llwyddiannus eu chydnabod a mynd i'r afael â nhw. Mae risg uchel y bydd anwybyddu'r ffeithiau hyn yn arwain at wastraffu ymdrech ac adnoddau cyhoeddus.

8. Polisi Llywodraeth Cymru yw datblygu rhwydweithiau lleol a chlystyrau o gadwyni cyflenwi lle bydd gwneud hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir. Rydym eisoes yn gwneud hyn gyda chynhyrchwyr bwyd. Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn gyfle i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach a hefyd i hwyluso gweithgareddau ar lawr gwlad. Mae'n amlwg bod gan gymunedau ddiddordeb a brwdfrydedd mewn perthynas â phrosiectau bwyd, ac mae llu o fentrau ledled Cymru. Yn aml y manteision yw'r pethau ar wahân i'r cynnyrch ei hun, a gallent gyfrannu at amrediad o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bwriad y Llywodraeth yw helpu'r mentrau hyn, ac rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau un-i-un helaeth â sefydliadau sy'n gweithredu yn y maes hwn, er mwyn deall yr heriau a'r cyfleoedd. Mae'n bosibl y gallai cyrff cyhoeddus ganolbwyntio mwy ar y rhwystrau strwythurol mae prosiectau cymunedol yn eu hwynebu, fel argaeledd tir, neu gallent ystyried sut y gall cyflenwyr lleol ddiwallu eu hanghenion caffael. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth o'r farn y gall y prosiectau cymunedol hyn byth gymryd lle y brif system fwyd-amaeth. Rhaid bod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni. Yn anaml y mae opsiynau amgen ar gyfer cynhyrchu a chyflenwi bwyd yn gystadleuol o ran cost, a hefyd maent yn dymhorol. Mae rhai defnyddwyr sy'n fodlon talu prisiau uwch, fel arfer am resymau moesegol, ond nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn gallu fforddio'r cynhyrchion amgen hyn, nac yn fodlon talu'r prisiau – neu nid ydynt yn ddigon cyfleus. Gall buddsoddiadau gan Lywodraeth Cymru helpu i ysgogi'r opsiynau hyn, ac i oresgyn rhwystrau i raddau – ond ni all y Llywodraeth newid y ffactorau sylfaenol sy'n gyrru'r system fwyd, gan fod y rhain yn ffactorau rhyngwladol / y DU fel cost a meintiau elw, ac arbedion maint, lle mae daearyddiaeth Cymru, y math o bridd, yr hinsawdd a phellter llawer o'r tir o

ardaloedd trefol mawr yn anfanteision ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau ar raddfa fawr.

9. Felly, mae'r llywodraeth yn canolbwyntio ar y cymorth ymarferol, uniongyrchol y gall ei roi i'r boblogaeth yn y tymor byr. Ar 11 Mai, cynhaliodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol gyfarfod bord gron i ystyried y ffordd fwyaf effeithlon o ddefnyddio adnoddau i leihau ac atal yr angen i ddibynnu ar ddarpariaeth bwyd frys.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed, er mwyn lliniaru'r agweddau gwaethaf ar yr argyfwng costau byw. Eleni mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £3.9 miliwn i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol i ddarparu cymorth bwyd brys ac i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd, ac mae £1.1 miliwn wedi cael ei ddyrannu i gefnogi a chryfhau sefydliadau bwyd i'w helpu i fodloni'r galw uwch.

11. Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn cwrdd yn rheolaidd â'r prif fanwerthwyr bwyd, ac wedi derbyn sicrwydd bod y manwerthwyr yn sicrhau bod camau’n cael eu cymryd ar draws pob categori o gynhyrchion er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fforddiadwy. Yn ogystal, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r manwerthwyr hyn, ac maent wedi derbyn sicrwydd bod popeth yn cael ei wneud i gadw prisiau mor isel ag y bo modd.

**Amaethyddiaeth**

12. Roedd costau mewnbwn fel bwyd, tanwydd a gwrtaith eisoes yn codi, ond mae'r prisiau hyn bellach yn codi'n yn fwy cyflym byth o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin. Prif effaith y rhyfel yn Wcráin ar sectorau ffermio yn y DU o hyd yw'r pris ac, i ryw raddau, argaeledd deunyddiau mewnbwn. Mae Rwsia ac Wcráin ymhlith prif gynhyrchwyr grawnfwydydd a hadau olew y byd, ac mae'r rhyfel yn tarfu ar allforion.

13. Mae Rwsia hefyd yn un o brif gyflenwyr nwy naturiol i Ewrop, ac mae'r gostyngiad yn y llif nwy wedi arwain at brisiau uwch yn Ewrop gyfandirol ac yn y DU. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at gostau uwch wrth gynhyrchu gwrtaith a CO2 gradd bwyd. Mae'r posibilrwydd o darfu ar gyflenwadau o wrtaith, carbon deuocsid ac asid nitrig bellach wedi lleihau, nawr bod CF Industries wedi bod yn glir ynghylch eu sefyllfa fasnachol. Er y sicrwydd hyn, mae'r cynnydd sylweddol mewn costau mewnbwn mae ein cynhyrchwyr amaethyddiaeth wedi eu hwynebu yn y misoedd diwethaf yn parhau i beri cryn bryder.

14. Rydym yn pryderu am gost sylweddol gwrtaith a thanwydd, a'r effeithiau cysylltiedig ar ffermwyr ledled Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU, a'r Llywodraethau Datganoledig eraill, i fonitro'r sefyllfa yn agos drwy Grŵp Monitro Marchnad Amaethyddiaeth y DU. Mae'r Grŵp Monitro hwn yn grŵp technegol mewnol rhwng y pedair Llywodraeth sy'n monitro'r marchnadoedd amaethyddiaeth ac yn hwyluso cydweithio o dan y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Cymorth Amaethyddiaeth. Mae

Llywodraeth Cymru a Gweinyddiaethau eraill y DU yn defnyddio'r cysylltiadau maent wedi'u sefydlu i rannu unrhyw wybodaeth sydd ar gael. Mae'n hanfodol bod y Gweinyddiaethau Datganoledig yn parhau i gael mynediad at y systemau rhagamcanu o fewn DEFRA, er mwyn nodi newidiadau tebygol i brisiau nwyddau, ynni a deunyddiau mewnbwn.

15. Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn cysylltu'n rheolaidd ag undebau'r ffermwyr, ffermwyr, cynhyrchwyr a manwerthwyr, yn ogystal â Gweinidogion eraill ledled y DU, i drafod y materion hyn. Mae hi hefyd wedi cwrdd yn ddiweddar â chynrychiolwyr y banciau i drafod effaith y rhyfel ar fusnesau amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi. Rydym wedi cyhoeddi cynlluniau gwerth dros £100 miliwn, a fydd yn agor eleni. Agorodd y cynllun Grantiau Bach – Effeithlonrwydd ar 19 Mai, gyda chyllideb o £5 miliwn.

16. Bydd Taliadau Gwledig Cymru yn prosesu hawliadau i Gynllun y Taliad Sylfaenol 2022 mor fuan ag y bo modd er mwyn, unwaith eto, alluogi gwneud taliadau ymlaen llaw ar 15 Hydref 2022. Gwneir y taliadau hyn cyn cwblhau'r broses ddilysu, a bydd pob hawlydd yn derbyn taliad, oni bai bod problem benodol fel diffyg dogfennau ategol, profiant ac ati.

17. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu canolfan wybodaeth i gyfeirio cynhyrchwyr at y cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf i helpu i liniaru'r costau mewnbwn uchel a welir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys addasu cyfraddau taenu nitrogen, opsiynau eraill ar gyfer rheoli gwrtaith ac offerynnau addasu cyfrifiadau gwrtaith ar gyfer glaswelltir, grawnfwydydd a hadau olew.

18. Drwy gefnogi ffermwyr, nid yn unig rydym yn datblygu cadernid yn eu mentrau amaethyddol, ond rydym hefyd yn galluogi buddsoddiadau a fydd, gydag amser, yn gwneud cynhyrchu'n fwy effeithlon ac yn arwain at allyriadau carbon is.

**Pysgodfeydd**

19. Cafodd pandemig COVID-19 effaith ddifrifol ar laniadau yn 2020, ac effeithiwyd arnynt yn ddifrifol unwaith eto o ganlyniad i ymadael â'r UE. Nid yw fflyd Cymru wedi cael y cyfle y adfer lefelau 2019, cyn i brisiau tanwydd cynyddu'n aruthrol. Mae ergydau COVID, ymadael â'r UE a nawr prisiau tanwydd sy'n codi'n aruthrol, un ar ôl y llall, wedi cael effaith arwyddocaol ar fflyd Cymru. Mae cost y deunyddiau mewnbwn sydd eu hangen ar y sector yn uchel, ac yn mynd yn uwch – er enghraifft, offer pysgota, abwyd, rhaffau, deunyddiau pecynnu, olewydd, rhannau a logisteg, heb unrhyw le i drosglwyddo costau uwch i'r cwsmer

20. Mae costau byw uwch yn arwain at lai o incwm gwario, ac o ganlyniad mae'r galw domestig am fwyd môr wedi gostwng. Mae archebion a fyddai fel arfer yn uwch yr adeg hon o'r flwyddyn, o ganlyniad i dwristiaeth, wedi cael eu lleihau yn sylweddol neu eu canslo. Yn aml ystyrir y bwyd môr sy'n cael ei lanio gan fflyd Cymru yn nwydd moeth nad yw'n cael ei baratoi gartref – fel crancod, cimychiaid, wystrys a chregyn bylchog. O ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw, bydd pobl yn bwyta allan yn llai aml, a bydd hyn yn cael effaith ar y sector.

21. Gyda Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro yn agos effaith digwyddiadau diweddar ar y diwydiant pysgota yn y DU, drwy'r Grŵp Monitro Pysgodfeydd, ac yn ystyried y ffordd orau o gefnogi’r diwydiant ymhellach yn ystod y cyfnod hwn.